Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Newidiadau i'r ffyrdd y byddwn ni'n cynnal ein proses cymhwyster i ddilyn galwedigaeth

Dywedwch eich dweud

Dywedwch wrthym beth yr ydych yn ei feddwl erbyn 26 Ionawr 2026

Pwy ydym ni

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ni yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Rydym ni'n sicrhau fod **nyrsys**, **bydwragedd** a **chymdeithion nyrsio** yn meddu ar y sgiliau a gwybodaeth sydd angen arnynt i wneud eu gwaith mewn ffordd ddiogel a charedig.

Cofrestr

Helena Mahon
Michelle Neeman
Krishna Azim
Kai Chung
Zofia Kowlczyk
Glynwen Brent
Santiago Silva

Rydym ni'n cadw rhestr o bawb sy'n gallu gweithio fel nyrsys a bydwragedd yn y DU. Rydym hefyd yn cadw rhestr o gymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Gelwir y rhestr yn **gofrestr**.



Mae rhai geiriau mewn **print trwm**. Ceir rhestr o'r hyn y maent yn ei olygu ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Am beth y mae hyn

Y mae ar nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio y sgiliau a'r wybodaeth i wneud ei swydd mewn ffordd ddiogel a charedig.

Gall unrhyw un ddweud wrthym pan mae nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi darparu gofal gwael iddynt.

Pryder ydym ni yn galw hyn.

Byddwn yn gwrando ar eich pryderon ac yn penderfynu a oes angen i ni edrych i mewn i'r mater.

Cymhwyster i ddilyn galwedigaeth ydym ni yn galw'r broses hon.

Rydym eisiau gwneud rhai newidiadau i’r ffyrdd y gwnawn hyn.

Rydym eisiau gwneud ein gwaith:

- yn gynt

- yn decach ac

- yn gliriach i bawb.

Pam ein bod eisiau newid y ffyrdd y byddwn yn gwirio cymhwyster rhywun i ddilyn galwedigaeth

Gwyddom y gall y ffordd y byddwn yn gwirio cymhwyster i ddilyn galwedigaeth gymeryd gormod o amser a bod yn ofid i bawb sy'n cymeryd rhan.

Y mae llywodraeth y DU am wneud newidiadau mwy yn y dyfodol.

Ond rydym ni eisiau gwneud newidiadau yn awr i wella pethau.

Rydym eisiau i chi gael dweud eich dweud

Rydym eisiau clywed beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau hyn.

Bydd eich atebion yn ein cynorthwyo i benderfynu a ddylem wneud ein gwaith yn wahanol.

Gallwch ddweud eich meddyliau wrthym drwy:

Lenwi ein arolwg ar lein: **nmcuk.qualtrics.com/jfe/form/SV_6M6iTzqzjH1GEpU**

Ein ebostio ar: **consultations@nmc-uk.org**

Rhaid dweud wrthym eich meddyliau erbyn **26 Ionawr 2026**.

Rydym yn awgrymu 5 newid

Newid 1. Newid sut y gall y panel gael cyngor

Pan ddywed rhywun wrthym eu bod yn teimlo bod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi darparu gofal gwael iddynt, efallai y bydd rhaid i ni gynnal gwrandawiad er mwyn trafod y peth.

Mewn gwrandawiad mae tîm o bobl y'u gelwir yn banel yn dod at ei gilydd er mwyn gwneud penderfyniad teg.

Maent yn annibynnol, sy'n golygu nad ydynt ar ochr neb.

Weithiau mae angen cymorth ar y panel i ddeall y gyfraith.



Rhestr o reolau yw'r gyfraith, sy'n rhaid i ni i gyd eu dilyn fel y gall popeth fod yn ddiogel ac yn deg.

Beth sy'n digwydd yn awr

Y mae rhywun a elwir yn **aseswr cyfreithiol** yn cynorthwyo'r panel i ddeall y gyfraith er mwyn sicrhau fod y broses yn rhedeg yn dda.

Nid yw'r aseswr cyfreithiol yn aelod o'r panel.

Rhaid iddynt fod yn gyfreithiwr ac wedi bod yn gyfreithiwr ers 10 mlynedd neu fwy.

Maent yn annibynnol, sy'n golygu nad ydynt ar ochr neb.

Beth yr ydym eisiau ei newid

Fe hoffem weithiau ddefnyddio **cadeirydd panel gyda chymwysterau cyfreithiol** yn lle aseswr cyfreithiol.

Ystyr **cadeirydd panel gyda chymwysterau cyfreithiol** yw rhywun sy'n arwain y panel a sy'n medru rhoi cyngor ynghylch y gyfraith.

Yn union fel aseswr cyfreithiol bydd rhaid iddynt fod yn gyfreithiwr sydd wedi bod yn gyfreithiwr ers 10 mlynedd neu fwy.

Pan mae'r panel yn cynnwys cadeirydd gyda chymwysterau cyfreithiol, ni bydd angen aseswr cyfreithiol ar wahan arnom.

Bydd hyn yn golygu:

- bydd y panel yn gwneud penderfyniadau'n gynt.

- ei fod yn rhatach.

Os nad oes cadeirydd gyda chymwysterau cyfreithiol byddwn o hyd yn defnyddio aseswyr cyfreithiol.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn yr hoffem ei wneud?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod

Newid 2. Rheolau cryfach ynghylch paratoi ar gyfer gwrandawiad

Rydym eisiau rhoi cyfarwyddiadau manwl sydd yn rhaid i bobl eu dilyn wrth baratoi ar gyfer gwrandawiad.

Bydd rhaid i bawb ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, gan ein cyfrif ninnau (os nad oes rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny).

Bydd rhaid i'r panel sy'n rhedeg y gwrandawiad sicrhau fod y cyfarwyddiadau yn cael eu dilyn.

Bydd hyn yn golygu:

- bod pawb yn gwybod beth sy'n rhaid ei wneud i baratoi ar gyfer gwrandawiad

- bydd pawb yn gwybod beth sy'n rhaid iddynt ei wneud yn ystod y broses

- bydd modd rhannu **tystiolaeth** yn gynt

  Tystiolaeth yw gwybodaeth ynghylch y gŵyn.

- gall gwrandawiadau fod yn fyrrach ac yn gorffen yn gynt.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn yr hoffem ei wneud?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod

Newid 3. Ffyrdd newydd o yrru a rhannu gwybodaeth

Efallai y bydd angen arnom i rannu gwybodaeth gyda'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio perthnasol.

Gallwn ddefnyddio cyfrif diogel ar lein neu borth i rannu dogfennau fel llythyrau a phecynnau tystiolaeth.

Fyddem ni ddim ond yn gwneud hyn os yw'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn cytuno.

Bydd gyrru gwybodaeth drwy gyfrif ar lein neu borth yn golygu:

- ei fod yn gynt ac yn fwy diogel

- bod pob dogfen yn un lle

- bydd o gymorth i bobl sydd angen addasiadau rhesymol.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn yr hoffem ei wneud?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod



Newid 4. Edrych ar fframiau amser

Mae 3 rhan i'r newid hwn.

4a. Dechrau'r broses

Beth sy'n digwydd yn awr

Os benderfynwn bod rhaid i ni edrych i mewn i bryder, rhaid i ni ddweud wrth y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

Rhaid i ni hefyd ddweud wrthynt y gallent yrru ateb i ni (os ydynt yn dymuno).

Gelwir y cam hwn yn **darparu cynrychioliadau**.

Rhoddwn 28 diwrnod iddynt i yrru ateb.

Beth allai newid

Credwn mai 28 diwrnod yw'r amser cywir fel rheol.

Ond fe hoffem fedru rhoi mwy o amser pan mae'n deg ac yn gywir i wneud hynny.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn yr hoffem ei wneud?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod

4b. Ar ddiwedd y broses

Beth sy'n digwydd yn awr

Wedi i ni gael golwg ar bryder byddwn yn gyrru'r wybodaeth a gasglasom at y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

Rhaid i ni roi 28 diwrnod iddynt ymateb i'r wybodaeth hon.

Beth allai newid

Arholwr achos yw rhywun gyda'r swydd o edrych ar yr holl wybodaeth ynglŷn â'r bryder.

Os yw'r arholwr achos yn meddwl y bydd angen i ni wneud rhywbeth ymhellach, credwn ei bod yn gywir gofyn i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymateb.



Os nad yw'r arholwr achos yn meddwl bod angen i ni wneud rhywbeth ymhellach, ni chredwn y dylem orfod gofyn i'r nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i yrru mwy o wybodaeth.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn yr hoffem ei wneud?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod

4c. Gwrandawiadau a chyfarfodydd

Beth sy'n digwydd yn awr

Os bydd gwrandawiad neu gyfarfod yn mynd i gael ei gynnal, rhaid i ni ddweud wrth y nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio beth yw dyddiad y gwrandawiad neu'r cyfarfod o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw.

Beth allai newid

Byddwn eisiau byrhau'r 28 diwrnod os:

- yw'r person yn cytuno

- os yw er lles pawb iddo ddigwydd yn gynt.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn yr hoffem ei wneud?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod

Newid 5. Gwell cefnogaeth i dystion bregus

Mae rhai pobl yn ei chael yn anodd i siarad am yr hyn ddigwyddodd oherwydd:

- eu sefyllfa bersonol

- eu iechyd a'u lles

- nad yw'n hawdd siarad am brofiad anodd.

Rydym yn galw hyn yn bod yn **dyst bregus**.

Rydym eisiau:

- defnyddio iaith garedicach yn ein rheolau

- rhoi mwy o gymorth i bobl sydd angen cymorth i siarad gyda'r panel am yr hyn a ddigwyddodd.

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn yr hoffem ei wneud?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno na'n anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Ddim yn gwybod

Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl gyda **nodweddion gwarchodedig** neu bobl sy'n siarad Cymraeg?

Nodweddion gwarchodedig yw:

- oedran
- ailgyfeiriad rhyw
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil
- crefydd neu gredo
- rhyw
- tueddfryd rhywiol.

Sut y bydd hyn o gymorth

Bydd yr holl newidiadau hyn yn:

- peri bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt

- gostwng straen i bawb

- gwneud y broses yn decach

- cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Diolch i chi am ddweud eich dweud wrthym.

Ystyr y geiriau

Arholwr achos
Rhywun â'r swydd o edrych ar yr holl wybodaeth ynglŷn â phryder.

Aseswr cyfreithiol
Cyfreithiwr y mae'n rhaid iddynt fod wedi bod yn gyfreithiwr am 10 mlynedd neu fwy. Maent yn annibynnol, sy'n golygu nad ydynt ar ochr neb.

Bydwragedd
Pobl wedi eu hyfforddi i ddarparu cefnogaeth, gofal a chyngor i ferched yn ystod beichiogaeth, llafur ac ar ôl geni'r babi.

Cadeirydd panel gyda chymwysterau cyfreithiol
Rhywun sy'n arwain y panel a sy'n medru rhoi cyngor ar y gyfraith. Rhaid iddynt fod wedi bod yn gyfreithiwr am 10 mlynedd neu fwy.

Cofrestr
Rhestr o bawb sy'n meddu ar yr hyfforddiant cywir a sy'n gymwys yn ôl ein rheolau i weithio fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu gydymaith nyrsio yn Lloegr.

Cynrychioliadau
Y cyfle i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i anfon i ni eu gwybodaeth ynghylch pryder.

Cyfraith
Rheolau y mae'n rhaid i ni i gyd eu dilyn fel y gall popeth fod yn ddiogel ac yn deg.

Cymdeithion nyrsio
Swyddogaeth yn Lloegr yw hon. Hyfforddir cymdeithion nyrsio i weithio gyda nyrsys i gefnogi a gofalu dros gleifion.

Cymhwyster i ddilyn galwedigaeth
Y mae nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio angen y sgiliau a'r wybodaeth i wneud eu gwaith mewn ffordd ddiogel a charedig. Gelwir hyn yn gymhwyster i ddilyn galwedigaeth.

Nyrsys
Pobl wedi eu hyfforddi i ddarparu gofal diogel a charedig i helpu pobl gyda phroblemau iechyd, ac i helpu pobl i aros yn iach.

Pryder
Pan ydym yn pryderu fod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi darparu gofal gwael, oherwydd gwybodaeth a dderbyniwn.

Tystiolaeth
Gwybodaeth ynghylch pryder yr ydym yn ymchwilio iddi.

Tyst bregus
Rhywun sy’n ei chael yn anodd i siarad am beth ddigwyddodd oherwydd:

- eu sefyllfa bersonol
- eu iechyd a‘u lles, neu
- nid yw’n hawdd siarad am brofiad anodd.

Clodrestr

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn ar gyfer y “Nursing and Midwifery Council”. Y mae’n cynnwys deunydd o’r casgliad “Inspired Easy Read Collection” ac ni chaiff ei ddefnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services Publishing Ltd.

Cyf ISL154 25. Medi 2025.

Speaking Up Together -
Gwneud gwybodaeth Easy Read

Rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth dros Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T 020 7637 7181
www.nmc.org.uk